# Arolwg Tîm Rheoli BBC Cymru Wales 2013/14



# Mae'r BBC yn perthyn i'r cyhoedd. Nhw sy'n berchen ar y BBC, nhw sy'n caru'r BBC – a dim ond y gorau sy'n gwneud y tro. Bob dydd, mae'n rhaid i ni brofi ein bod yn haeddu'r ymrwymiad hwnnw.

Os ydych chi am gael rhagor o wybodaeth am flwyddyn y BBC – gan gynnwys datganiadau ariannol llawn a pherfformiad yn erbyn ymrwymiadau cyhoeddus eraill – yna ewch i'r wefan bbc.co.uk/annualreport

**Cynnwys**


01 Cyflwyniad y cyfarwyddwr
02 Crynodeb dwy funud
04 Perfformiad y gwasanaethau
11 Edrych ymlaen
13 Prif flaenoriaethau'r flwyddyn nesaf
14 Cysylltu
15 Y tîm rheoli


**Llun ar y clawr**
*Hinterland/Y Gwyll* a ddarlledwyd ar BBC One Wales, BBC Four ac S4C
Llun gan: Fiction Factory/S4C/All3Media/Tinopolis

**Tudalen 10**
Llun gan: Chris Christodoulou

# Cyflwyniad y Cyfarwyddwr

> "Mae'r arolwg yma yn bwrw golwg ar ein llwyddiannau a'n sialensiau – ac yn amlach na pheidio, maen nhw'n ddwy ochr i'r un geiniog."



Mae dewis uchafbwynt personol o'r flwyddyn ddiwethaf yn dasg anodd. Ai cynhesrwydd a ffraethineb *The Call Centre*, llwyddiant byd-eang *Doctor Who* wrth i'r gyfres gyrraedd yr hanner cant, harddwch anghysbell *Hinterland* neu ddiweddglo trydanol *Sherlock*?

Cafwyd nifer o gerrig milltir i'w dathlu yn ystod y 12 mis diwethaf, ac ry'n ni'n falch iawn ohonyn nhw, ond mae yna hefyd lwyddiannau 'tawelach' sydd wedi rhoi'r un pleser.

Un enghraifft yw trawsnewidiad golygyddol BBC Radio Wales yn ystod y blynyddoedd diwethaf – sy'n parhau i berfformio'n dda. Neu ail-wampio ein rhaglen newyddion Gymraeg, *Newyddion 9*, gyda'i agenda mwy beiddgar a chraff. Yn y naill achos, mae uchelgais ac ymrwymiad y timau rhaglenni wedi bod yn heintus ac yn llawn ysbrydoliaeth.

Mae'r arolwg yma yn bwrw golwg ar ein llwyddiannau a'n sialensiau – ac yn amlach na pheidio, maen nhw'n ddwy ochr i'r un geiniog.

- Mae ein cynulleidfaoedd ar BBC One Wales a BBC Two Wales gyda'r uchaf ers degawd – ond mae'r sialens o gynnal amrywiaeth eang o raglenni yn mynd yn llawer anoddach wrth i'r arbedion wasgu
- Mae ein gwasanaethau rhyngweithiol ar ddyfeisiau symudol a thabledi yn tyfu'n gyflym – ond bydd angen i ni symud yn gyflymach ar-lein i gadw i fyny gyda disgwyliadau ein cynulleidfa
- Mae ein cyfraniad at rwydweithiau'r BBC ar draws y DU yn fwy ac yn ehangach nag erioed – ond ry'n ni'n gwybod bod angen gwneud mwy i bortreadu Cymru.

Os byddwn ni'n onest ac yn benderfynol, fe wnewn ni wireddu'r sialensiau yma beth bynnag a ddaw. Wrth reswm, bydd angen dychymyg a rhywfaint o ddyfeisgarwch, ond does dim prinder o'r rheiny.

**Rhodri Talfan Davies**
**Cyfarwyddwr, BBC Cymru**

# Crynodeb dwy funud

## Ffeithiau a ffigyrau am berfformiad a chynnyrch BBC Cymru

**Byd-eang**
Nifer y gwledydd a ddangosodd rhifyn pen-blwydd *Doctor Who* yn 50 oed.

98

**BBC Cymru ar-lein**
Porwyr unigryw i gynnwys ar-lein BBC Cymru bob wythnos.

3.7m


**Gwerthfawrogiad cynulleidfa**
Sgôr gwerthfawrogiad cynulleidfa ar gyfer *Max on St David's Day*.

93


**Cynulleidfa**
Cynulleidfa gyfartalog *Sherlock* ar BBC One ar draws y DU.

11.8m

**Cymeradwyaeth o'r BBC yng Nghymru**
(sgôr cymedrig allan o 10)
Ffynhonnell: ART/Kantar




**Cyrhaeddiad wythnosol teledu**
(yn seiliedig ar gyrhaeddiad 15 munud di-dor) (miloedd)
Ffynhonnell: BARB



# Crynodeb dwy funud

## Rhaglenni teledu Saesneg BBC Cymru
Y Deg Cyfres Fwyaf Poblogaidd a'r Pum Rhaglen Unigol Fwyaf Poblogaidd ar gyfer 2013/14

### Cyfresi Saesneg

| | |
|---|---|
| Wales Today at 6.30pm | 305,000 |
| Hinterland | 287,000 |
| The Indian Doctor | 264,000 |
| Police 24/7 | 246,000 |
| Weatherman Walking | 240,000 |
| Coming Home | 229,000 |
| Swansea: Back on the Streets | 226,000 |
| Family Life Swap | 224,000 |
| Swansea Market | 223,000 |
| X-Ray | 218,000 |

### Cyfresi Saesneg

| | |
|---|---|
| Max Boyce's Big Birthday | 425,000 |
| Jonathan Davies: Trimsaran Boy | 318,000 |
| Scrum V: Six Nations Preview | 230,000 |
| Family Life Swap at Christmas | 205,000 |
| Jamie Owen: Fat and Forty Something | 183,000 |

## BBC Cymru ar S4C
Y Deg Cyfres Fwyaf Poblogaidd a'r Pum Rhaglen Unigol Fwyaf Poblogaidd ar gyfer 2013/14

### Cyfresi ar S4C


| | |
|---|---|
| Pobol y Cwm | 76,000 |
| Y Clwb Rygbi (Pro12) | 74,000 |
| Yr Eisteddfod Genedlaethol: Mwy o'r Maes | 33,000 |
| Y Clwb Rygbi Rhyngwladol | 26,000 |
| Yr Eisteddfod Genedlaethol: Seremonïau | 23,000 |
| Yr Eisteddfod Genedlaethol: Y Babell Lên | 21,000 |
| Newyddion 9 | 19,000 |
| Pawb a'i Farn | 19,000 |
| Taro Naw | 19,000 |
| Yr Eisteddfod Genedlaethol: Prynhawniau | 17,000 |

### Rhaglenni ar S4C


| | |
|---|---|
| Pobol y Cwm: Nadolig | 70,000 |
| Argyfwng Ffermydd Mynydd | 43,000 |
| Stori'r Storm | 36,000 |
| Pawb a'i Farn: Is-Etholiad Môn | 28,000 |
| Rhyfel D.T. Davies: Heb Ryddid Heb Ddim | 26,000 |

Ffynhonnell: BARB
Ffigyrau'n cynnwys unrhyw ail-ddarllediadau o fewn yr un wythnos

**Gwefannau BBC Cymru: Porwyr Unigrwyr Wythnosol**
(miliwn)
Ffynhonnell: BBC




**Cyrhaeddiad Wythnosol Radio (oedolion)**
(miloedd)
Ffynhonnell: RAJAR/RSMB/Ipsos-MORI



# Perfformiad y gwasanaethau

## Rhaglenni Saesneg – BBC One Wales/BBC Two Wales

Ein prif flaenoriaeth eleni oedd cynnig portread mwy cyfoes o'r Gymru fodern yn ei holl amrywiaeth – ac mae'r uchelgais honno wedi arwain at y gynulleidfa uchaf ers degawd ar draws newyddion a rhaglenni cyffredinol.

Ym mis Ionawr, fe dorrwyd tir newydd ar BBC One Wales gyda'r gyfres ddrama ddwyieithog *Hinterland* (a ddarlledwyd hefyd ar S4C fel *Y Gwyll*). Fe ddenodd y straeon grymus a'r perfformiadau gwych gynulleidfaoedd mawr, ac mae ei llwyddiant ar draws y DU ar BBC Four ym mis Mai 2014 yn argoeli'n dda ar gyfer yr ail gyfres.

Ar deledu, radio ac ar-lein, bu tymor Hir Oes Cymru yn ein hysbrydoli i fyw bywydau iachach – yn y gwaith ac adre. Gwelodd bron i 40% o oedolion yng Nghymru y tymor amserol a phoblogaidd yma – gan gynnwys rhaglenni fel *The Welsh Weight Clinic*, *Family Life Swap* ac *Is My Job Killing Me?*

Gydol y flwyddyn, aeth ein rhaglenni o dan groen y Gymru gyfoes – o *The Scarlets'*, fu'n bwrw golwg ar un o'n rhanbarthau rygbi, i hynt a helynt emosiynol *The Country Midwives*. Datgelodd ail gyfres *Police 24/7* rai o wirioneddau gwaith yr heddlu yn ne Cymru.

Cafwyd llinyn newyddiadurol cryf drwy nifer o'n rhaglenni: arweiniodd ymchwiliad *X-Ray* i ganolfan alwadau yn Abertawe oedd yn gwerthu gwarantau lloeren ffug at garcharu sawl aelod o'u staff, a chafwyd cyfres o ymchwiliadau gan *Week In Week Out* yn ystod y flwyddyn fu'n asesu effaith stormydd y gaeaf a pherfformiad y system addysg yng Nghymru.

O ran newyddion a chwaraeon, denodd *BBC Wales Today* gynulleidfa o 305,000 ar gyfartaledd am 6.30pm (a mwy na 1.3 miliwn bob wythnos ar draws eu bwletinau) – y lefel uchaf ers bron i ddeng mlynedd. Ac mae *The Wales Report* gyda Huw Edwards yn parhau i ddenu cynulleidfa fawr ac amrywiol wrth i'r gyfres wythnosol archwilio gwleidyddiaeth a phŵer.

Mae rhaglenni chwaraeon hefyd wedi denu cynulleidfaoedd mawr, gyda darllediadau cynhwysfawr o'r Pro 12 a Phencampwriaeth y Chwe Gwlad. Mae *Scrum V* wedi ennill ei blwyf fel gwasanaeth rygbi'r BBC y gellir ymddiried ynddo fwyaf, ac mae wedi bod yn rhan annatod o'r sylw a roddwyd i'r anghydfod rhwng y rhanbarthau rygbi ac Undeb Rygbi Cymru.

Ymhlith y rhaglenni dogfen pwerus oedd y portread dadlennol o'r cyn chwaraewr rygbi rhyngwladol Jonathan Davies yn ogystal â'r rhaglen rymus *The Girl with Two Hearts*. I nodi 30 mlynedd ers streic y glöwyr, cafwyd darlun personol a theimladwy gan y cyn-Weinidog Llafur a'r ymgyrchydd undeb, Kim Howells.

I gloi, wnaethon ni ddim anghofio o gwbwl bod Cymru'n gallu bod yn wlad llawn hwyl, a denodd *Max Boyce's Big Birthday* gynulleidfa ucha'r flwyddyn, heb sôn am Rhod Gilbert yn rhoi cynnig ar ei *Work Experience*. Bu chwilio mawr yn yr archif adeg dathlu pen-blwydd BBC Cymru yn 50 oed a rhoddwyd cyfle i'r gynulleidfa chwerthin gyda ni (ac am ein pennau ni) gyda golwg ysgafn ar yr oes a fu.

*Is My Job Killing Me?* Rhan o dymor Live Longer Wales



PC Debbie Johnson yn *Police 24/7*



# Perfformiad y gwasanaethau

## BBC Cymru ar y rhwydweithiau

Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn garreg filltir bwysig yn natblygiad cynyrchiadau rhwydwaith yng Nghymru. Gyntaf oll, dathlwyd pen-blwydd y gyfres *Doctor Who* yn 50 oed ar draws y byd.

Gwelwyd y bennod arbennig mewn 98 o wledydd ar yr un pryd, ac fe'i dangoswyd hefyd mewn 1,500 o sinemâu ar draws 6 chyfandir. Ail-adrodd pennod gyntaf *Doctor Who* oedd *An Adventure in Space and Time* – drama gan Mark Gatiss a gynhyrchwyd gan BBC Cymru.

Daeth *Sherlock* yn ei ôl yn 2014 (a gynhyrchwyd gan Hartswood) gan ddenu sylw'r cyfryngau yn rhyngwladol. Ar gyfartaledd, gwyliodd 12 miliwn o bobl y drydedd gyfres – y gyfres ddrama fwyaf poblogaidd ers dros ddegawd.

Lansiwyd cyfres gyntaf *Atlantis*, sef drama ffantasi, yn hydref 2013 ar BBC One gyda 5.8 miliwn yn gwylio ar gyfartaledd. Wedi'i chynhyrchu gan Urban Myth Films a'i hysgrifennu gan Howard Overman, mae ail gyfres wrthi yn cael ei chynhyrchu yn ne Cymru a gogledd Affrica.

Cynhyrchwyd ail gyfres o ddrama CBBC *Wizards vs Aliens* yn ein stiwdios ym Mhorth y Rhath. Yn ogystal roedd *Casualty*, sydd hefyd yn cael ei chynhyrchu gan BBC Cymru ym Mhorth y Rhath, wedi denu cynulleidfa gref yn ystod y flwyddyn ac enillodd wobr am y stori anhygoel ynglŷn ag anffurfio organau rhywiol menywod.

Denodd *The Call Centre*, cyfres ddogfen ar gyfer BBC Three am ganolfan alwadau yn Abertawe, gryn glod a rhai o'r ffigyrau gwylio gorau erioed ar gyfer rhaglen ffeithiol ar y sianel. Bu *Crimewatch* yn y penawdau gyda'i rhaglen arbennig am ddiflaniad Madeleine McCann, a arweiniodd at ddatblygiadau arwyddocaol yn yr ymchwiliad.

Cynhyrchwyd darllediadau o BBC Canwr y Byd Caerdydd wrth i'r gystadleuaeth ddathlu ei phen-blwydd yn 30 oed a'i darlledu ar BBC Four, BBC Two Wales ac, am y tro cyntaf ar S4C. Fe gynhyrchodd ein tîm cerddoriaeth teledu rai rhaglenni dogfen trawiadol am gerddoriaeth gyfoes ar BBC Four – yn eu plith portread o Nile Rogers, awdur rhai o ganeuon enwocaf cerddoriaeth bop.

Parhau i wefreiddio gwrandawyr BBC Radio 4 fu *The Diary of Samuel Pepys*, a addaswyd gan Hattie Naylor ac a gynhyrchwyd gan dîm drama radio BBC Cymru. Mae ein dramâu ar gyfer BBC Radio 4 a BBC Radio 3 yn cynnwys awduron Cymreig toreithiog fel Meic Povey a Malcolm Pryce, yn ogystal â chyflwyno awduron newydd i fyd y ddrama radio fel Katy Wix a Paul Jenkins.

Fel rhan o ben-blwydd y gyfres *Composer of the Week* yn 70 oed ar Radio 3, cysylltodd tua 4,500 o bobl â'r tîm gydag awgrymiadau am gyfansoddwyr oedd erioed wedi cael eu cynnwys ar y rhaglen. Y cyfansoddwr Ffrengig anghyfarwydd o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, Louise Farrenc, oedd y cyntaf i'w gynnwys, gyda llawer mwy i ddilyn.

Parhawyd hefyd i ehangu ein gwaith ar Radio 4. Mewn partneriaeth â'r BBC yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban, cynhyrchwyd *The Young Devolutionaries*, lle archwiliodd criw o bobl ifanc yn eu harddegau o'r tair gwlad, effaith datganoli ar eu bywydau. Edrychodd cyfres ddogfen dwy-ran ar y tirlun diwylliannol ac ieithyddol ar ffurf taith ar hyd *The Welsh M1* – sef yr A470 – gyda Cerys Matthews yn cyflwyno.

*The Day of the Doctor* – llwyddiant ar draws y byd



# Perfformiad y gwasanaethau

## BBC Cymru ar S4C

Gwelwyd cynnydd golygyddol gwirioneddol yn ein rhaglenni ar S4C yn 2013/14 – a pharhaodd *Newyddion 9*, *Pobol y Cwm* ac *Y Clwb Rygbi* i gael lle canolog yn amserlen y sianel. Serch hynny, roedd niferoedd y gynulleidfa'n gyffredinol yn siomedig eto eleni, gyda gostyngiadau pellach yn y cyrhaeddiad wythnosol. Ry'n ni'n gweithio'n agos gyda'r tîm yn S4C i fynd i'r afael â sialensau'r gynulleidfa.

Roedd straeon *Pobol y Cwm* yn adlewyrchu ochr ysgafnach bywyd bob dydd yn ogystal ag ymdrin â materion anoddach fel pedoffilia a chamddefnyddio steroids. Mae cynlluniau ar y gweill hefyd ar gyfer pen-blwydd y gyfres yn 40 oed ym mis Hydref 2014.

Ar *Y Clwb Rygbi*, cafwyd darllediadau cynhwysfawr o'r Pro 12, taith y tîm cenedlaethol i Siapan, a sylw llawn i uchafbwyntiau ac iselbwyntiau Gemau Rhyngwladol yr Hydref a Phencampwriaeth y Chwe Gwlad.

Ddiwedd Ebrill 2013, yn dilyn adolygiad manwl, ail-lansiwyd ein prif raglen newyddion – *Newyddion 9* – gyda slot newydd am 9pm. Gyda Bethan Rhys Roberts wrth y llyw, mae'r rhaglen yn cynnig ymdriniaeth fanylach ac unigryw o straeon Cymreig – yn ogystal â newyddion Prydain a newyddion o bedwar ban byd. Mae rhaglenni newyddion ychwanegol hefyd wedi'u cynhyrchu wrth ymateb i straeon mawr y flwyddyn, gan gynnwys dedfrydu Mark Bridger am lofruddio April Jones, yn ogystal â marwolaethau Nelson Mandela a Margaret Thatcher.

Ochr yn ochr â hyn, ail-lansiwyd ein harlwy gwleidyddol, gyda *Newyddion 9: Y Sgwrs* yn cynnig golwg wahanol ac ehangach ar y penawdau gwleidyddol yng Nghaerdydd a San Steffan a'u heffaith ar gymunedau ledled Cymru.

Er i'r gyfres materion cyfoes, *Taro Naw*, ddod i ben yn ystod hydref 2013, mae ein hymrwymiad i newyddiaduraeth ffurf estynedig yn parhau dan frand *Newyddion Arbennig*. Ym mis Ionawr, bu *Stori'r Storm* yn bwrw golwg ar effaith y stormydd ar gymunedau arfordirol yng Nghymru. Taflodd *Cysgod Cynheidre* oleuni ar y creithiau dyfnion sy'n dal i fodoli o fewn yr hen gymunedau glofaol 30 mlynedd ers dechrau streic y glowyr.

Cyn is-etholiad Ynys Môn, cafwyd cyfle pellach am drafodaeth gyhoeddus gyda rhifyn ychwanegol o'n rhaglen drafod *Pawb a'i Farn*. Cynhyrchwyd rhaglen drafod arbennig hefyd *Ein Barn Ni*, i gyd-fynd ag wythnos o ddarllediadau ar S4C gan bobl ifanc ar gyfer pobl ifanc.

Ar Sul y Cofio, roedd *Rhyfel DT Davies: Heb Ryddid Heb Ddim*, yn olrhain stori deimladwy cyn-garcharor rhyfel o Ddryslwyn, Sir Gaerfyrddin. Dilynwyd ei bererindod i Awstria am y tro cyntaf ers iddo ddianc o'r wlad 70 o flynyddoedd yn ôl.

Yn hwyrach ym mis Tachwedd, fel rhan o wythnos o raglenni ynglŷn â dibyniaeth, darlledwyd *Gadael y Gwter: Stori John Stevenson*, lle bu cyn-ohebydd seneddol BBC Cymru yn sôn am ei 'ddegawd coll' pan fu'n gaeth i alcohol ac yn byw ar y stryd.

Ochr yn ochr ag S4C, cafwyd cydweithio agosach gyda'r Eisteddfod Genedlaethol yn Ninbych, gan arwain at flas celfyddydol cyfoethocach i'n rhaglenni o'r brifwyl.

*Newyddion 9* â'i agenda mwy beiddgar




*Y Clwb Rygbi* yn cynnig darllediadau cynhwysfawr o'r Pro 12 a gemau rhyngwladol Cymru



# Perfformiad y gwasanaethau

## BBC Radio Wales

Cafodd BBC Radio Wales flwyddyn gref arall gyda 468,000 o bobl ar gyfartaledd yn gwrando bob wythnos.

Gwelwyd cynnydd hefyd mewn cynulleidfaoedd yng ngogledd Cymru o ganlyniad i fuddsoddi pellach mewn rhaglenni a chynnwys o bob rhan o Gymru. Parhaodd yr orsaf i newid yn ystod y flwyddyn – ac ym mis Hydref, ymunodd Eleri Sion a Wynne Evans â'r orsaf i ddarlledu yn ystod yr wythnos.

Canolbwyntiodd rhaglen *Eleri Sion* ar adloniant a diwylliant o brynhawn Llun i brynhawn Iau, ac ar ddydd Gwener, bu *Wynne Evans's Big Weekend* yn trafod digwyddiadau ar draws y wlad. Gyda dau dîm pêl-droed yn yr Uwch Gynghrair a rygbi rhyngwladol Cymru ar frig y don, ail-lansiwyd rhaglenni chwaraeon yr orsaf ym mis Awst 2013. Yn ystod yr wythnos, cyflwynwyd rhifyn nosweithiol newydd o *Radio Wales Sport* er mwyn cynnig mwy o newyddiaduraeth o safon am y chwaraeon mwyaf poblogaidd a'r chwaraeon lleiafrifol yng Nghymru. Darlledwyd hefyd rhaglen bêl-droed newydd ar ddydd Sadwrn, *Call Rob Phillips*.

Mae'r rhaglenni newydd wedi helpu cynulleidfaoedd i wneud synnwyr o nifer o'r straeon mawr – o ddiswyddo rheolwyr Caerdydd ac Abertawe i'r anghydfod yn myd rygbi Cymru. Mae wedi ein galluogi hefyd i gynnig arlwy mwy cynhwysfawr o baratoadau Gemau'r Gymanwlad, yn ogystal â sylwebaeth fyw o dîm pêl-droed cenedlaethol merched Cymru am y tro cyntaf.

Parhawyd i adeiladu ar enw da'r orsaf wrth feithrin talent comedi newydd yng Nghymru. Comisiynwyd tair cyfres newydd ar gyfer nosweithiau Gwener: sioe gomedi newydd *Come the Revolution*; daeth y cymeriad unigryw *Siadwel* yn ei ôl; a *Here Be Dragons* sioe sgetsys o dan adain Matt Lucas (a enillodd Wobr yr Academi Radio).

Mae Radio Wales wedi rhoi cefnogaeth eang i gerddoriaeth gyfoes yng Nghymru gyda rhaglenni arbenigol ar y penwythnos, sylw yn ystod y dydd ar eitemau fel 'Artist of the Week', a sylw cynhwysfawr i ddigwyddiadau cerddorol mawr (gan gynnwys Green Man, Gŵyl Rhif 6 a WOMEX). Rhoddwyd cefnogaeth bellach i gerddorion newydd yng Nghymru drwy'r bartneriaeth 'Gorwelion/Horizons' gyda BBC Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru.

O ran drama, recordiwyd fersiwn newydd o *A Child's Christmas in Wales* gan Dylan Thomas, gyda Matthew Rhys yn darllen, ac ymunodd llu o sêr â'r actor Terry Jones i ddarllen ei *Fairy Tales* adeg y Nadolig.

Wrth agosáu at refferendwm annibyniaeth yr Alban, cafwyd tymor o raglenni am berthynas Cymru â gwledydd eraill y DU. Heriodd *Good Morning Wales*, *Morning Call* a *Jason Mohammad* rai o'r rhagdybiaethau ynglŷn â barn y Cymry am y Saeson, a chafwyd cyfle hefyd i bobl archwilio goblygiadau pleidlais ie neu na yn yr Alban. Mae ein rhaglenni newyddion hefyd wedi edrych ar bynciau fel camddefnyddio cyffuriau yng Nghymru a chyflwr system addysg y wlad.

*Here Be Dragons* – enillydd gwobr yr Academi Radio



Cyflwynwyr newydd Radio Wales



# Perfformiad y gwasanaethau

## BBC Radio Cymru

Ail-lansiwyd amserlen ddyddiol BBC Radio Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mewn ymateb i'r 'Sgwrs' – ymgynghoriad cyhoeddus mawr gyda'r gynulleidfa.

Mae sain newydd yr orsaf yn egnïol, yn groesawgar ac yn apelgar. Er gwaethaf gostyngiad hir-dymor mewn cyrhaeddiad a chyfradd – yn ogystal â'r anghydfod cerddoriaeth y llynedd – mae'r 12 mis diwethaf wedi gweld yr orsaf yn adennill tir (cyrhaeddiad wythnosol i fyny 13% ers llynedd) ac yn cynyddu ei heffaith ar-lein (i fyny 20% ers llynedd).

Dylan Jones gymerodd yr awenau ar y rhaglen fore cyn trosglwyddo i Shân Cothi gyda sgwrs, diwylliant ac amrywiaeth eang o gerddoriaeth. Am hanner dydd, cyflwynwyd rhaglenni trafod i sbarduno trafodaeth, gyda hanner awr o raglenni nodwedd i ddilyn, cyn ymuno â Garry Owen ar *Taro'r Post*. Mae Garry a'i dîm yn bwriadu gadael y stiwdio yn rheolaidd, ac yn ystod wythnos gyntaf yr amserlen newydd, bu'r tîm yn crwydro Cymru am wythnos gyfan.

Mae'r sain yn go wahanol yn y prynhawniau gyda'r DJ Andrew 'Tommo' Thomas yn dod â'i sŵn mawr ac unigryw i Radio Cymru o ddydd Llun i ddydd Iau. Tudur Owen a'i dîm oedd yn parhau wrth y llyw ar brynhawn Gwener, tra bod Tommo yn teithio Cymru i berswadio'r rheiny sydd ddim yn gwrando ar Radio Cymru mwyach fod gan yr orsaf rywbeth i'w gynnig.

Ry'n ni bellach yn darlledu rhaglenni dyddiol o Abertawe, Caerdydd, Bangor a Chaerfyrddin, ac ry'n ni wedi gweithio'n galed i sicrhau bod llais y gogledd ddwyrain hefyd yn cael ei glywed. Mae'n hanfodol bod ymrwymiad yr orsaf i fod yn Llais Cymru yn un gwirioneddol. Diolch i'n hymgyrch 'Cais am Lais' – sef dod o hyd i leisiau ffres a newydd i dîm *C2* – daeth y gŵr ifanc 21 oed, Guto Rhun, i'n sylw ni. Mae wedi bod yn darlledu ddwywaith yr wythnos, ac wedi dangos gwerth y gwaith a wneir gan dîm yr orsaf gydag ysgolion ar draws Cymru.

Mae gennym enw da am roi celfyddydau a diwylliant Cymru wrth wraidd yr orsaf. A byddwn yn parhau i wneud hynny drwy gael bardd preswyl bob mis fydd yn gwrando ac yn ymateb i'r hyn sydd wedi'u hysbrydoli, neu efallai sydd wedi'u cythruddo. Cafodd dramâu a dramâu-dogfen cryf eu darlledu eleni, gan gynnwys Matthew Rhys yn lleisio drama bwerus i gofio canrif ers trychineb lofaol Senghennydd.

Ry'n ni wedi parhau i adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd yn y sîn gerddorol yng Nghymru yn ein rhaglenni cerddoriaeth arbenigol. Roedd ymweliad Gŵyl WOMEX â Chaerdydd yn un uchafbwynt, gyda'n sesiynau rhyngwladol o Stiwdio Grace Williams y BBC yn torri tir newydd. Mae'r gystadleuaeth 'Brwydr y Bandiau' i fandiau ifanc wedi parhau i greu argraff wrth i ni ddatgelu cynlluniau i roi cefnogaeth bellach i gerddorion newydd yng Nghymru drwy'r bartneriaeth 'Gorwelion/Horizons' gyda BBC Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru.

I ni, uchafbwynt chwaraeon y flwyddyn oedd taith y Llewod i Awstralia. Talodd holl waith caled y tîm yn Awstralia a nôl yma yng Nghymru ar ei ganfed, gyda diddordeb mawr yn ein harlwy radio ac ar ein gwefan.

Tommo – sŵn mawr y prynhawn ar Radio Cymru



Sesiynau Radio Cymru o stiwdio Grace Williams y BBC adeg Gŵyl WOMEX



# Perfformiad y gwasanaethau

BBC ONLINE

## Rhyngweithiol

Yn ystod 2013/14, gwelwyd twf cyflym yn y defnydd o ddyfeisiau symudol a gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol. Ar gyfartaledd, cafodd 3.7m o borwyr unigryw fynediad i'n gwasanaethau rhyngweithiol bob wythnos ar gyfrifiaduron, ffonau symudol, tabledi a theledu smart bob wythnos – cynnydd o draean ar y flwyddyn flaenorol.

At hynny, mae gan gyfrifon cyfryngau cymdeithasol BBC Cymru 300,000 o ddilynwyr erbyn hyn, gan roi cyfle newydd i gynulleidfaoedd ryngweithio gyda thimau cynhyrchu a chyflwynwyr. Mae'r twf yn bennaf oherwydd y newid mawr yn y defnydd o wasanaethau rhyngweithiol – gyda dyfeisiau symudol a thabledi yn gweld cynnydd sylweddol tra bod y defnydd o gyfrifiaduron wedi aros yn yr unfan.

Newyddion a chwaraeon sy'n parhau i ddenu'r nifer fwyaf o ddefnyddwyr gyda straeon mawr yn amrywio o fuddugoliaeth y Llewod yn Awstralia i dymor anodd Caerdydd ac Abertawe yn yr Uwch Gynghrair, ac o stormydd y gaeaf i achos Ian Watkins. Yn ogystal â hynny, mae fersiwn ddiweddaraf BBC iPlayer yn cynnig llwybr newydd cyffrous i ddefnyddwyr allu gwylio rhaglenni BBC Cymru. Yn hwyrach yn 2014, bydd S4C hefyd yn ymuno â'r gwasanaeth ar-alw, gan ddod â deunydd radio a theledu Cymraeg at ei gilydd.

Y ffordd orau o ddangos grym y cyfryngau cymdeithasol oedd trydedd gyfres *Sherlock* a phennod *Doctor Who* i ddathlu'r hanner cant. Cynhaliwyd digwyddiad Twitter byw ar ôl pennod olaf *Sherlock*, lle cafwyd cyfle i holi Steven Moffat a Mark Gatiss – digwyddiad oedd yn trendio yn fyd-eang gyda 377,000 o negeseuon trydar mewn awr. Torrodd y bennod i ddathlu pen-blwydd *Doctor Who* yn 50 oed bob record ar BBC iPlayer, ac roedd cyhoeddi Peter Capaldi fel y Doctor newydd yn stori ryngwladol fawr gyda 542,000 o negeseuon trydar y noson honno.

Mae defnyddwyr ein gwasanaethau rhyngweithiol Cymraeg hefyd wedi cynyddu i 40,000 o borwyr unigryw bob wythnos – ac ry'n ni ar y ffordd i gyrraedd ein targed o 50,000 erbyn y flwyddyn nesaf. Mae ein gwasanaeth newydd, BBC Cymru Fyw, hefyd ar gael bellach ar bob dyfais – a bydd 'app' Cymraeg cyntaf y BBC yn cael ei lansio yn ystod yr haf.

I gynulleidfaoedd iau, cynhyrchwyd cynnwys *Bitesize* yn y ddwy iaith – gan amrywio o 24 ffilm ar gyfer TGAU Daearyddiaeth i TGAU Drama a gynhyrchwyd ar y cyd â National Theatre Wales. A gwelwyd grym y gwasanaethau digidol wrth ddod ag amrywiaeth o raglenni at ei gilydd mewn un lle, gyda lansio hafan ddigidol newydd ar gyfer tymor Dylan Thomas y BBC.

Mae BBC Cymru hefyd wedi bod ar flaen y gad yn datblygu fformat cynnwys newydd ac arloesol o'r enw 'iWonder guides'. Mae pob canllaw yn gofyn cwestiwn neu'n gosod her, gyda fideo neu destun i ddilyn yn ogystal â gweithgaredd ryngweithiol. Mae'r canllawiau sydd wedi'u cynhyrchu yn cynnwys sialens dysgu Cymraeg: "*Could you learn to sing Calon Lân in 30 minutes?*" a straeon golygyddol mwy heriol fel sut yr arweiniodd y Rhyfel Byd Cyntaf at ddatblygiad llawdriniaeth gosmetig.

Mae gan gyfrifon cyfryngau cymdeithasol BBC Cymru 300,000 o ddilynwyr erbyn hyn




Canllaw iWonder ynglŷn â llawdriniaeth gosmetig adeg y Rhyfel Byd Cyntaf



# Perfformiad y gwasanaethau

Cerddorfa a Chorws Cenedlaethol Cymreig y BBC

## Cerddorfa a Chorws Cenedlaethol Cymreig y BBC

O dan y Cyfarwyddwr newydd, Michael Garvey, mae Cerddorfa a Chorws Cenedlaethol Cymreig y BBC yn parhau i gyflawni rôl arbennig fel cerddorfa ddarlledu a cherddorfa symffoni genedlaethol Cymru gan iddynt berfformio'n fyw i ddegau ar filoedd o bobl ar draws y wlad. Mae gwaith y Gerddorfa yn cael ei gefnogi gan y BBC a Chyngor Celfyddydau Cymru. Mae enw da'r gerddorfa yn parhau – nid yn unig oherwydd ansawdd ac ehangder ei pherfformiadau, ond hefyd am ei gwaith cymunedol pwysig ledled Cymru.

O dan faton y Prif Arweinydd, Thomas Søndergård, bu'r Gerddorfa yn cynrychioli Cymru chwech o weithiau yn y BBC Proms yn 2013. Derbyniodd y *Doctor Who Prom* ganmoliaeth uchel yn ogystal â pherfformiad cyntaf Søndergård o Symffoni Rhif 11 Shostakovich. Parhawyd hefyd i weithio ochr yn ochr â thîm BBC Proms yn y Parc fel y gerddorfa breswyl.

Cynhaliwyd cyfres o gyngherddau *Americana* – a oedd yn cynnwys gweithiau gan gyfansoddwyr clasurol Americanaidd yr 20fed ganrif fel Copland, Bernstein a Gershwin – yn fyw ar BBC Radio 3 a'u darlledu ar *Performance Today* (American Public Media), sy'n darlledu i dros 260 o orsafoedd radio cyhoeddus, a 1.3 miliwn o wrandawyr yn wythnosol.

Roedd perfformiad y Gerddorfa o 9fed Symffoni Mahler ym mis Chwefror 2014 yn un o uchafbwyntiau artistig y flwyddyn, gan ddenu cryn glod a chanmoliaeth. Ac yn ystod ein taith i Aberystwyth, Bangor, Wrecsam a Llandudno ym mis Chwefror, parhawyd i weithio gyda pherfformwyr cyffrous fel yr arweinydd Nicholas Collon a'r chwaraewyr ffidil ifanc Callum Smart a Chloë Hanslip, a oedd yn boblogaidd iawn gyda'r gynulleidfa.

Cynhaliwyd cyngherddau teuluol yng Nghaerdydd a Hwlffordd am y tro cyntaf, gyda fideo o gerddorion y BBC yn cyflwyno'r repertoire. Roedd y flwyddyn hon yn un arbennig o arwyddocaol i Gorws Cenedlaethol Cymreig y BBC a ddathlodd ei ben-blwydd yn 30 – gyda pherfformiadau yn cynnwys Requiem Fauré, Dathliadau Nadolig a Gwasanaeth Carolau BBC Cymru, yn ogystal â'r Cyngerdd Gŵyl Ddewi blynyddol. Cyfoethogwyd dathliadau gydag enwebiad Grammy am y Perfformiad Corawl Gorau am recordiad o *Parry: Works for Chorus and Orchestra*, yn cynnwys rhagair gan Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru.

Mae ein tîm Addysg a Chymunedol wedi parhau i gyflawni gwaith anhygoel, gan dderbyn enwebiad am wobr arbennig am eu gwaith gyda grwpiau byddar a'r rhai sy'n cael trafferth clywed. Ar y cyd â'r Gymdeithas Plant Byddar Cenedlaethol, cynhaliwyd gweithdai cerddorol i blant byddar a'u teuluoedd yn y Galeri yng Nghaernarfon. Aeth cerddorion o'r Gerddorfa yn ôl i Gorwen am gyfres o sesiynau cerddorol mewn ysgolion cynradd lleol a chartref preswyl.

Daeth ein blwyddyn o weithgareddau addysg a chymunedol i ben gyda *Composition: Wales* – prosiect sy'n rhoi llwyfan i gyfansoddwyr greu gwaith ar gyfer cerddorfa symffoni lawn, gan dderbyn adborth gwerthfawr gan y cerddorion. Mae ein cyfansoddwyr preswyl yn rhan o'r ymgais i barhau i feithrin talent newydd yng Nghymru.

Mae'r Gerddorfa hefyd wedi cryfhau'r bartneriaeth gyda thimau cynhyrchu yn y BBC – a recordiwyd traciau sain ar gyfer rhaglenni fel *Doctor Who*, *Hidden Kingdoms* a *The Crimson Field*. Tu allan i'r BBC, daw cyngor a chefnogaeth gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Y Gymdeithas Gerddorfaol Brydeinig a Llywodraeth Cymru.

Thomas Søndergård a Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC yn y Proms



# Edrych ymlaen

## Rhodri Talfan Davies

Mae'r BBC yn mwynhau ambell garreg filltir. A phan ry'ch chi wedi bodoli am bron i ganrif, mae yna ddigon o ddewis. Tro *Doctor Who* oedd dathlu'r hanner cant y llynedd, ac eleni, tro BBC Cymru oedd cyrraedd yr un garreg filltir.

Ar un wedd, roedd creu BBC Cymru yn ateb problem dechnegol. Hyd at hynny, yn 1964, roedd y darllediadau ar y sianel ry'n ni nawr yn ei galw'n BBC One Wales, yn cael eu rhannu rhwng Cymru a gorllewin Lloegr.

Ond roedd arwyddocâd diwylliannol y foment honno yn un dwfn. O'r diwedd, roedd lansio BBC Cymru yn galluogi'r genedl i weld ei hun a siarad â'i hun ar ei thelerau ei hun – ynglŷn â'i materion ei hun – a hynny mewn dwy iaith.

Roedd gan Gymru – am y tro cyntaf – ei gofod cyhoeddus ei hun, ei llwyfan cenedlaethol ei hun ar y cyfrwng mwyaf pwerus ohonyn nhw i gyd. Byddai BBC Cymru yn helpu i ddod â Chymru at ei gilydd mewn ffordd na allai unrhyw welliannau i'r A470 eu cyflawni.

Ac wrth i ni baratoi'r ffordd ar gyfer yr hanner canrif nesaf, mae'r ymdeimlad hwnnw o hanes a threftadaeth o'n cwmpas ni ym mhob man. Ond i fod yn onest, yr her sydd o'n blaenau sydd bwysicaf.

### Adlewyrchu Cymru

Mae'r arolygon blynyddol yma wedi dathlu'r camau breision y mae BBC Cymru wedi'u gwneud mewn cynyrchiadau rhwydwaith yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ond mae'n bwysig hefyd cydnabod y sialensau sylweddol y mae ein gwasanaethau Saesneg lleol ar gyfer Cymru wedi eu hwynebu yn ystod yr un cyfnod.

Mae'r buddsoddiad mewn rhaglenni Saesneg o Gymru am Gymru wedi gostwng ers bron i ddegawd. Mae'r gostyngiad yng nghyfraniad ITV Cymru wedi chwarae rhan fawr yn hyn – ond mae rhaglenni'r BBC hefyd wedi'u herydu.

Mae'r ffaith ein bod yn parhau i ddenu cynulleidfaoedd mawr yn llwyddiant creadigol anhygoel. Ond mae cyfyngiadau ariannol, yn anochel, yn golygu bod rhai agweddau ar fywyd cenedlaethol Cymru ddim yn cael eu hadlewyrchu'n ddigonol ar wasanaethau teledu'r BBC ei hun.

Yn y byr dymor, ry'n ni'n gweithio i leihau'r effeithiau hyn drwy gyd-gomisiynu gyda chydweithwyr rhwydwaith y BBC ac S4C (*Hinterland*, *A Poet in New York* ac *Indian Doctor*). Ry'n ni hefyd yn canolbwyntio ar dymhorau o raglenni penodol ar gyfer BBC One Wales (mae Hir Oes Cymru a thymor Dylan Thomas wedi profi'r effaith sy'n gallu cael ei chreu gyda thymhorau mawr fel hyn).

Yn y tymor canolig, fe ddywedodd Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC yn glir mewn araith ddiweddar yng Nghaerdydd nad oedd yna atebion hawdd. Mae'r bwriad diweddar i gau BBC Three fel sianel ddarlledu a'i symud ar-lein yn dweud rhywbeth am y dewisiadau ariannol anodd sy'n wynebu'r BBC. Gan edrych ymlaen, roedd Tony Hall yn iawn i ddweud bod angen i ni feddwl yn galed ynglŷn â sut y gallwn gryfhau ein cefnogaeth ar gyfer hunan-fynegiant cenedlaethol a rhanbarthol wrth baratoi ein hachos ar gyfer Siarter Frenhinol newydd.

### Cymru amrywiol

Mae hanner canfed blwyddyn BBC Cymru yn addo i fod yn gymysgedd go iawn o chwaraeon, diwylliant, drama, coffáu a chreu hanes gwleidyddol. Dewiswch chi o restr sy'n cynnwys Gemau'r Gymanwlad, canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf a Dylan Thomas, Doctor newydd, ac yn olaf, ond yn sicr nid lleiaf, bydd dyfodol y DU yn cael ei benderfynu mewn refferendwm yn yr Alban.

Bydd pob un o'r rhain, wrth gwrs, yn sialens wahanol i'n timau rhaglenni. Ond dwi'n amau mai'r sialens fwya' sy'n wynebu BBC Cymru yn ystod y misoedd a'r blynyddoedd nesaf yw cadw i fyny gyda Chymru sy'n newid mor gyflym o'n cwmpas ni.

Yn gymdeithasol, yn wleidyddol, yn ddiwylliannol, ac wrth gwrs, yn ddigidol, dy'n ni erioed wedi gweld Cymru mor amrywiol. Ein gwaith ni felly, yw adlewyrchu ac archwilio'r Gymru gyfoes fel ag y mae heddiw – nid fel yr oedd pethau, neu fel y mae pobl yn dymuno iddi fod. Bydd angen llwyth o ddychymyg, chwilfrydedd di-baid, dewrder a pharodrwydd i gael gwared ag unrhyw ddelfrydu.

Peter Capaldi – y deuddegfed Doctor



Gabrielle Murphy yn perfformio ar Lwyfan Gorwelion y BBC/Cyngor Celfyddydau Cymru yng Ngŵyl Lenyddiaeth Dinefwr



# Edrych ymlaen

Yn ystod y misoedd diwethaf, rwy'n credu bod BBC Cymru wedi cymryd camau mawr wrth ddarlunio Cymru fel ag y mae. Mae *Hinterland*, *The Country Midwives*, a *The Hill Farm* i gyd wedi portreadu'r Gymru ddwyieithog mewn ffordd gredadwy – ac mae hynny wedi bod ar goll o'r sgrîn yn y gorffennol. Ac mae *The Call Centre* ar BBC Three yn cynnig portread difyr ond pwysig o fywydau a phryderon pobl ifanc yn y Gymru gyfoes.

## Cymru Ddigidol

Ers dros ddegawd, mae cyffro mawr wedi bod am y chwyldro digidol. Ond yn y blynyddoedd diwethaf, mae cyflymder y newid wedi cynyddu'n amlwg, ac mae'n rhaid i BBC Cymru ymateb gyda dychymyg ac ystwythder.

Fel y byddwch wedi gweld yn yr arolwg yma, ry'n ni wedi gweld twf cyflym yn y defnydd o'n gwasanaethau ar ffonau symudol a thabledi, ac mae cyfryngau cymdeithasol wedi dod yn rhan ganolog wrth ddarparu newyddion a rhyngweithio â'r gynulleidfa.

Wrth baratoi ar gyfer y newid, ry'n ni wedi cymryd camau breision wrth gynyddu effaith ein gwasanaethau rhyngweithiol Cymraeg, ac ry'n ni ar y llwybr iawn i gyrraedd y targed o 50,000 o borwyr unigryw wythnosol erbyn 2015.

Ond un rhan o'r stori yw honno. Er bod ein gwasanaethau newyddion a chwaraeon digidol yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr, ry'n ni o'r farn bod angen i ni godi'r bar a sefydlu'r gwasanaethau hyn dros amser, fel carreg sylfaen ar gyfer ein gwasanaeth newyddion i Gymru. Yn ystod y 12 mis nesaf, byddwn yn asesu'r ffordd orau o wneud hyn – a sut i daro'r cydbwysedd rhwng ein prif raglenni newyddion radio a theledu gydag anghenion y rhai sy'n defnyddio dyfeisiau symudol.

## BBC Agored

Mae'r BBC yn perthyn i'r cyhoedd. Nhw sy'n berchen ar y BBC, nhw sy'n caru'r BBC – a dim ond y gorau sy'n gwneud y tro. Bob dydd, mae'n rhaid i ni brofi ein bod yn haeddu'r ymrwymiad hwnnw.

Wrth gwrs, mae hynny'n golygu cynhyrchu rhaglenni a gwasanaethau sydd o ansawdd uchel ac yn unigryw. Ond mae'n golygu mwy na hynny hefyd: mae'n golygu bod yn agored ac yn onest ynglŷn â'r sialensau sy'n ein hwynebu a bod yn atebol am y penderfyniadau ry'n ni'n eu cymryd, ac estyn allan i weithio gyda sefydliadau eraill ar draws Cymru sy'n rhannu'r un gwerthoedd â ni – i gynnig gwybodaeth, addysg neu adloniant.

Y llynedd, er enghraifft, roedd Radio Cymru yn wynebu nifer o sialensau. Roedd cynulleidfaoedd yn gostwng a'r orsaf yn wynebu anghydfod cerddoriaeth, na chafodd ei greu ganddi, ac amharodd ar yr amserlen am wythnosau.

Ein hymateb oedd lansio'r ymgynghoriad cyhoeddus mwyaf erioed ar ddyfodol yr orsaf. Cafwyd dros 1,000 o ymatebion i'r 'Sgwrs', ac mae hynny wedi helpu'r tîm ddatblygu gweledigaeth newydd a chyffrous ar gyfer yr orsaf. Fe gymerodd ddewrder a gonestrwydd – ond dyna oedd y peth iawn i'w wneud, ac rwy'n credu ei fod wedi helpu i ail-gysylltu'r orsaf â'i chynulleidfa.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ry'n ni hefyd wedi gweithio'n galed i ddatblygu perthynas ddyfnach gyda sefydliadau sy'n rhannu'r un gwerthoedd a dyheadau â ni. Roedd llwyddiant *Hinterland* yn garreg filltir bwysig yn ein perthynas gydag S4C, ond mae mwy eto i ddod, gan gynnwys rhoi rhaglenni S4C ar BBC iPlayer yn hwyrach eleni.

Mae ein Partneriaeth Gwerth Cyhoeddus gyda Chyngor Celfyddydau Cymru wedi arwain at y cynllun 'Gorwelion', sydd eisoes yn helpu artistiaid newydd o bob rhan o Gymru i ddatblygu eu gyrfaoedd cerddorol. Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn edrych ymlaen at bartneriaeth ddarlledu newydd gyda Gŵyl y Gelli ac yn cydweithio gyda sefydliadau o bob rhan o'r sector greadigol i wneud y gorau o effaith ein cynlluniau i ddatblygu canolfan ddarlledu newydd BBC Cymru yng Nghaerdydd.

Tymor Dylan Thomas, bydd yn ceisio i ddal hanfod y bardd yn ystod canmlwyddiant ei eni



# Prif flaenoriaethau'r flwyddyn nesaf

- Gweithio gyda chydweithwyr rhwydwaith i wella'r gynrychiolaeth o Gymru ar sianeli teledu'r BBC ar draws y DU
- Darparu tymor gwych o raglenni i nodi canmlwyddiant geni Dylan Thomas
- Darparu arlwy gynhwysfawr o refferendwm yr Alban a'i effaith bosib ar Gymru a'r DU
- Symud yn gyflymach ar-lein – cryfhau ein presenoldeb ar ddyfeisiau symudol a darparu gwasanaeth mwy personol i ddefnyddwyr
- Symud ymlaen gyda chynlluniau i foderneiddio technoleg ac adeiladau BBC Cymru fel rhan o strategaeth eiddo ehangach y BBC.

# Cysylltu

Os oes gennych gwestiwn, sylw neu gwŷn ynglŷn â rhaglenni neu wasanaethau BBC Cymru, neu unrhyw agwedd arall o waith y BBC, cysylltwch â'n huned Gwasanaethau Cynulleidfa.

Bydd yr holl adborth yn cael ei gofrestru'n ofalus a'i ddosbarthu'n rheolaidd i'r timau golygyddol a'r rheolwyr.

**Ffôn: 03703 500 700**

Mae'r llinellau ar agor rhwng 9.30am–7.30pm Llun-Gwener (heblaw gwyliau banc). Ni fydd galwadau i'r rhif 0370 yn costio mwy na galwadau i rifau daearyddol 01/02. Gall galwadau gael eu recordio at ddibenion hyfforddi.

**Gwefan: www.bbc.co.uk/cymru/gwybodaeth**

**Ysgrifennwch at:**
Gwasanaethau'r Gynulleidfa
BBC Cymru Wales
Bangor
LL57 2BY

Cwynion: am ragor o wybodaeth am broses gwyno'r BBC ac i gyflwyno cwyn ar-lein, ewch i

**www.bbc.co.uk/cwynion**

# Y tîm rheoli



**Rhodri Talfan Davies**
Cyfarwyddwr BBC Cymru



**Clare Hudson**
Pennaeth Cynyrchiadau



**Gareth Powell**
Prif Swyddog Gweithredol



**Adrian Davies**
Pennaeth Rhaglenni a Gwasanaethau Saesneg



**Sian Gwynedd**
Pennaeth Rhaglenni a Gwasanaethau Cymraeg



**Mark O'Callaghan**
Pennaeth Newyddion a Materion Cyfoes



**Richard Thomas**
Pennaeth Marchnata, Cyfathrebu a Chynulleidfaoedd

**Ffotograffiaeth**
Mae'r lluniau a ddefnyddir yn © BBC neu yn cael eu defnyddio o dan dermau'r cytundeb PACT.

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw format neu gyfrwng ar yr amod y gwneir hynny mewn ffordd gywir nad yw'n gamarweiniol. Mae'n rhaid ei achredu i'r BBC.

**Dylunio gan Fishburn™**
thisisfishburn.com

British Broadcasting Corporation
Broadcasting House
London W1A 1AA
bbc.co.uk
(H) BBC 2014